**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**National Assembly for Wales**
Children, Young People and Education Committee

**CYPE(5)-17-19 - Papur i'w nodi 4**

**Vaughan Gething AC**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

24 Mai 2019

Annwyl Vaughan

**Iechyd meddwl amenedigol yng Nghymru: gwaith craffu dilynol**

Yn gynharach eleni, fe wnaethom gyfnewid gohebiaeth yn ymwneud â **gwaith yn dilyn** ein hymchwiliad i wasanaethau iechyd meddwl amenedigol yng Nghymru, a gynhaliwyd yn 2017.

Yn ein **llythyr dyddiedig 16 Ionawr 2019,** roeddem yn cydnabod y cynnydd a wnaed hyd yma, ond roedd gennym bryderon dwys ynghylch y diffyg cynnydd a wnaed mewn perthynas â sefydlu unedau mamau a babanod yng Nghymru yn benodol.

Yn eich ymateb, dyddiedig **7 Chwefror 2019** fe wnaethoch gadarnhau'ch cynnig i roi diweddariad i'r Pwyllgor bob chwe mis, ac rydym yn ddiolch ichi am hynny. Rydych hefyd wedi ymrwymo i roi syniad inni o'r cerrig milltir yr ydych yn disgwyl eu cyrraedd, bob chwe mis, rhwng nawr a diwedd y Cynulliad hwn. Er bod y Pwyllgor yn gobeithio cael y wybodaeth hon cyn gynted â phosibl, rydym yn nodi'ch bod yn bwriadu ei darparu yn eich diweddariad cyntaf, ac rydym yn disgwyl hwnnw ddechrau mis Awst 2019. Edrychwn ymlaen at gael y wybodaeth honno yn ystod y toriad er mwyn inni fedru parhau i graffu'n ddigonol, yn gadarn ac yn deg ar yr hyn sy'n cael ei wneud yn y maes hwn, ac er mwyn inni, fel Pwyllgor, fedru cytuno ar y camau nesaf ddechrau'r tymor nesaf fel mater o flaenoriaeth.

Yn gywir,

**Lynne Neagle AC**
**Cadeirydd**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565